

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 12FED O FAI 2015 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R  
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Mike Denman, Deryl Roberts, Gwyn Howatson, Medwyn Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Ian Hession, Clwyd Thomas, Dewi Roberts a Brynle Lloyd.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 10fed o Fawrth 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Buddug Williams o Grŵp Cynefin yn cadarnhau bod y diwrnod/noson agored yn Ysgol Rhewl yn ddiweddar yn reit bositif gyda nifer day n mynychu'r digwyddiad. Gobeithiaf mi fydd canlyniadau'r holiadur i'w chael erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Un Llan Cymru am dal aelodaeth ar gyfer 2015/16.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry nad oes rhaid cael mwy o gysylltiad na byw yn Rhewl ar gyfer rhestr aros yn Rhyd-y-Byll yn Rhewl.

D. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Cyngorydd Mike Denman bod y Cabinet Cyngor Sir Ddinbych yn trafod cam nesaf Ysgol Gynradd Rhewl ar 2il o Fehefin 2015.

4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM Y TYMOR 2015/16.

Etholwyd Cyngorydd Mike Denman yng Nghadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16.

5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM Y TYMOR 2015/16.

Etholwyd Cyngorydd Brynle Lloyd yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2015/16.

6. CYLLID.

A. Datganiad banc - £11,711.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r 2015/16 Precept - £2,696.00.

C. Taliadau:-

1. Society of Local Council Clerk's am llawlyfr "Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A Practitioner's Guide" - £23.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2015 - £300.00.

3. HMRC – PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2015 - £75.00.

4. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol â'n y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 - £144.00.

5. Cennin Ltd. – Chostau'r Wefan - £83.86.

6. AOL UK Ltd. – Yswiriant Blynnyddol y Cyngor - £777.42.

D. Derbyniwyd adroddiad lan gan yr Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y cyfrifon yn diweddu 31ain o Fawrth 2015 ac arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc y Cyngor.

### 7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

- A. Estyniad (Conservatory) yn Oakleigh, Rhewl – Dim gwrthwynebiad.
- B. Adeiladu 2 Stabl yn Gors Wen, Llanynys - Dim gwrthwynebiad.
- C. Adeiladu estyniad i Brÿn Clwyd, Rhewl - Dim gwrthwynebiad.
- D. Llinell dosbarthu trydan o Goedwigaeth Clocaenog at Is-orsaf trydan yn Llanelwy - Penderfynwyd ar y sylwad i'r llinell trydan fod o dan ddaear yn unig.

### 8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

### 9. UNRHYW FATER ARALL.

- A. Cytunodd Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry i edrych i mewn i'r materion y Cyngor Sir ganlynol:-
  1. Cyflwr y ffordd o Pen-y-Garth at Bant Glas Isaf.
  2. Cyflwr y ffordd o Lanynys heibio Llawog.
  3. Broblem golygfa'r Bont Afon Clywedog yn Rhewl oherwydd tyfiant yng nghae Rhyd-y-Cilgwyn.
  4. Broblem cyflymdra traffic ar Ffordd yr Orsaf yn Rhewl.
- B. Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry bod "Clwb Garddio Rhewl" yn awyddus am gefnogaeth arian gan y Cyngor Cymuned yn y flwyddyn ariannol bresennol. Gofynni'r i'r mudiad roi cais swyddogol i'r Cyngor Cymuned.
- C. Cytunodd Cynghorydd Mike Denman gwneud ymholiadau am gael "Defibrillator" yn y gymuned.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 14eg o Orffennaf 2015 yn Ysgol Gynradd y Rhewl am 7.30 o'r gloch.